Ymgysylltu â Phobl Ifanc o Gefndiroedd Ethnig Amrywiol drwy'r Celfyddydau

Digwyddiad Hyfforddi Engage Cymru ac EYST

Dydd Iau 27 Mai, 10.30 – 1.00pm

Crynodeb:-

Magu hyder a dealltwriaeth ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol a chefnogi pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru drwy'r celfyddydau gweledol

Ar gyfer pwy:

Bydd y digwyddiad hanner diwrnod hwn gyda EYST (Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig), ar gyfer artistiaid, addysgwyr a staff orielau, yn cynnig gwell hyder, dealltwriaeth a sgiliau ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol a chefnogi pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru, gan ystyried patrymau allweddol fel ffactorau economaidd, ffactorau diwylliannol a mathau gwahanol o fewnfudo yn cynnwys lloches, mudo economaidd a chymunedau lleiafrifol sefydledig. Byddwn hefyd yn rhannu enghreifftiau o arfer gorau wrth ymgysylltu â phobl ifanc drwy'r celfyddydau gweledol.

Deilliannau Dysgu

Erbyn diwedd y sesiwn bydd cyfranogwyr yn:

- Gwybod am wahanol fathau a phatrymau mudo, a'r gwahaniaethau

– economaidd, cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol – sy'n effeithio ar bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru

- Deall beth yw ymagwedd sensitif yn ddiwylliannol wrth weithio gyda phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig

- Gallu ystyried y diffiniadau diwylliannol a dangosyddion gwahanol o ymddieithrio pobl ifanc

- Deall pwysigrwydd persbectif Diwylliant a Ffydd wrth ymdrin â materion y mae pobl ifanc o leiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu.

- Magu empathi ynghylch materion gwrthdaro diwylliannol a hunaniaeth i bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig sy'n byw yng Nghymru

- Magu hyder a dealltwriaeth o arfer gorau wrth ddarparu cymorth priodol i bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig.

Tocynnau:-

Sefydliadau: £40.00

Llawrydd: £25.00

Dolen Eventbrite i archebu lle:- https://www.eventbrite.co.uk/e/engaging-ethnically-diverse-young-people-tickets-150634109677